Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

Ionawr 15fed, 2021

Annwyl riant / warcheidwad,

Rwy'n gobeithio bod pawb yn cadw'n iach ac yn ddiogel yn ystod y cyfnod clo estynedig presennol. Rydym yn ymwybodol bod yna rai teuluoedd yng nghymuned yr ysgol sydd yn wynebu cyfnod anodd iawn ar hyn o bryd o ganlyniad i salwch neu brofedigaeth, ac rydym ar gael i'ch cefnogi hyd eithaf ein gallu. Cysylltwch â ni os gallwn fod o gymorth i chi.

Mae'r Penaethiaid Blwyddyn ar safle'r ysgol ar rota yn ystod y cyfnod yma ac mae croeso i chi gysylltu â hwy drwy alwad ffôn i'r ysgol neu drwy e-bost i drafod unrhyw bryderon neu gefnogaeth sydd ei hangen ar eich plentyn.

Blwyddyn 7:	Fflur Rowlands:	Ffr@ysgolplasmawr.cymru
Blwyddyn 8:	Dion Davies:	DD@ysgolplasmawr.cymru
Blwyddyn 9:	Rhian Davies:	RhD@ysgolplasmawr.cymru
Blwyddyn 10:	Catrin Edwards:	CE@ysgolplasmawr.cymru
Blwyddyn 11:	Fiona Harries:	FAH@ysgolplasmawr.cymru
Blwyddyn 12:	Gareth Thomas:	GT@ysgolplasmawr.cymru
Blwyddyn 13:	Aled James:	AJ@ysgolplasmawr.cymru
Pennaeth Cynorthwyol:	Paul Harris:	PH@ysgolplasmawr.cymru
Arweinydd Cynnydd a Lles:	Helen Stiff:	HS@ysgolplasmawr.cymru
Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol:	Trystan Williams:	TW@ysgolplasmawr.cymru
Anogwr Dysgu:	Rebecca Rigby:	RR@ysgolplasmawr.cymru
Swyddog Teulu:	Karen Salter:	KS@ysgolplasmawr.cymru

Rydym yn dod i ddiwedd y pythefnos cyntaf o ddysgu o hirbell ac mae'n rhaid i mi ganmol presenoldeb, ymrwymiad a brwdfrydedd y mwyafrif helaeth o'n disgyblion o ran y ffordd newydd hon o ddysgu. Hoffwn ddiolch yn ogystal i'r disgyblion sydd wedi mynychu'r hwb, neu sydd wedi eu gwahodd i'r ysgol i gadw mewn cysylltiad gydag aelodau penodol o staff, am eu hymddygiad a'u dyfalbarhad.

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r staff sydd yn bresennol yn yr ysgol yn ddyddiol am gynnal yr hwb ac am gynnig cefnogaeth weinyddol ac atodol i athrawon a chynorthwywyr er mwyn iddyn nhw fedru cyflawni eu gwaith.

Rydym yn gwerthuso ein darpariaeth dysgu ac addysgu o hirbell yn barhaus. Rwy'n ddiolchgar i'r rhieni sydd wedi cysylltu â ni i gynnig adborth, ac rydym wedi cynnal sesiwn Llais y Dysgwr i ddisgyblion CA4 a CA5 yn ystod yr wythnos hon i glywed eu barn am eu profiadau dysgu. Rydym yn derbyn adborth cyson gan yr athrawon a'r cynorthwywyr am eu profiad hwythau.

O ran CA3, mae'n amlwg bod yr addasiadau a wnaed i'r amserlenni wythnosol yma wedi creu cydbwysedd gwell i'r athrawon a'r disgyblion o ran gwersi 'byw', gwersi 'melyn', sef gweithio dan oruchwyliaeth athro, a gwersi rhydd. Byddwn yn parhau â'r strwythur hon yr wythnos nesaf ac mae amserlen benodol i bob dosbarth wedi ei chynnwys mewn dogfen ar wahân. Cofiwch fod y gwersi 'rhydd', sy'n ymddangos yn wyn, ar amserlenni dyddiol pob plentyn

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

yn fwriadol er mwyn lleihau baich dysgu dyddiol y disgybl ac i roi cyfle i ddysgwyr gwblhau gwaith neu ymwneud â gweithgaredd llesiant e.e. ymarfer corff, ioga, dawns neu weithgaredd meddwlgarwch.

Mae'r prif negeseuon sy'n cael eu hailadrodd drwy sesiynau Llais y Dysgwr CA4 a CA5 yn cynnwys yn bennaf bryder am y baich gwaith a'r teimlad nad oes digon o amser i gwblhau gwaith yn ystod y dydd neu yn ystod y gwersi. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, fe fyddwn yn:

- Creu amserlen penodol i ddisgyblion **Blwyddyn 10** sy'n cynnwys gwersi 'byw' a rhai gwersi astudio annibynnol fydd yn caniatáu disgyblion i gwblhau tasgau ac aseiniadau yn ystod y dydd. Mae copi o'r amserlen ar gyfer wythnos nesaf yn yr atodiad. Gofynnir i ddisgyblion wirio yr amserlen yn ofalus.

- Parhau i ofyn i bob adran osgoi cynnal gwers 'fyw' ymhob gwers **Blwyddyn 11** ac i rannu eu gwersi dros bythefnos gyda rhai gwersi 'byw' ac eraill yn wersi lle bydd disgyblion yn medru gweithio'n annibynnol dan 'oruchwyliaeth' athro. Fe allai'r gwersi hyn amrywio o wythnos i wythnos, yn ddibynnol ar gynllun gwaith yr athro. Fe ddylai hyn helpu lleihau baich gwaith y disgyblion drwy roi cyfle iddynt gwblhau aseiniadau yn ystod y dydd.

- Parhau i ddisgwyl i fyfyrwyr **CA5** ddilyn amserlen dysgu arferol gyda phob gwers yn un 'fyw', ond bod pob athro yn trefnu sesiwn Llais y Dysgwr yn rheolaidd yn ystod y gwersi er mwyn trafod baich gwaith a negydu dyddiadau cau addas ar gyfer gwaith i'w asesu a phrofion.

- Gwneud mwy o ddefnydd o *break-out rooms* yn ystod gwersi fel bo grwpiau llai yn medru trafod gyda'i gilydd a gyda'r athro.

- Creu cyfleoedd i ddisgyblion sydd yn ei chael hi'n anodd am wahanol resymau i alw mewn i'r ysgol drwy wahoddiad er mwyn siarad â'r Pennaeth Blwyddyn perthnasol.

Un neges glir a ddaeth yn rheolaidd o'r sesiynau adborth gan ddisgyblion, athrawon a rhieni oedd bod troi camerâu disgyblion ymlaen mewn gwersi yn caniatáu lefel o ymrwymiad nad sy'n bosib pan fo'r camera wedi ei ddiffodd a bod hyn yn llesol i bawb. Fe fyddwn yn:

- Disgwyl i ddisgyblion droi eu camerâu ymlaen yn ystod y wers ar gais yr athro fel bo'r athro a'r disgyblion yn medru gweld ei gilydd a rhyngweithio. Bydd disgyblion yn diffodd eu camerâu yn ystod y wers wrth weithio ar dasg neu ar gais yr athro. Bydd athrawon yn deall os nad oes camera ar gael neu ddim yn gweithio ar liniadur neu gyfrifiadur y disgybl. Mae'n bwysig bod gan bob disgybl ficroffon yn gysylltiedig â'r ddyfais er mwyn medru cyfrannu ar lafar i drafodaethau grŵp neu i gyfathrebu gyda'r athro. Os oes gan ddisgybl reswm penodol i beidio troi'r camera ar y ddyfais ymlaen, mae croeso iddynt gysylltu'n uniongyrchol â'r athro drwy e-bost i gynnig esboniad.

- Disgwyl bod disgyblion wedi codi ac wedi gwisgo'n addas ar gyfer pob gwers. Mae'r wers gyntaf yn cychwyn am 08:45.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

- Disgwyl bod disgyblion yn 'cuddio' eu cefndir. Mae'r nodwedd hwn ar gael wrth wasgu'r tri smotyn (...) yn y bar offer (tool bar) pan yn y cyfarfod / gwers Teams.

Os na fydd darpariaeth 'fyw' ar gyfer gwers benodol, fe fydd hynny o ganlyniad i salwch athro neu amgylchiadau eithriadol, neu oherwydd bod athro ar ddyletswydd yn yr hwb yn yr ysgol. Gwneir pob ymdrech i ddarparu gwaith ar Teams neu Moodle os na fydd hi'n bosib cynnig gwers 'fyw'.

Darpariaeth Lles: Yn ogystal â'n darpariaeth academaidd, rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth bugeiliol a lles cynhwysfawr sy'n cynnwys:

- E-byst a negeseuon wythnosol gan y Tiwtor Personol / Pennaeth Blwyddyn / Tîm Arwain i bob blwyddyn.
- Gwasanaethau a myfyrdodau wythnosol ar safle Moodle yr ysgol; ewch i safle'r Cyfnod Allweddol perthnasol.
- Sesiwn Llais y Dysgwr reolaidd gyda'r disgyblion hŷn.
- Grwpiau targed ymhob blwyddyn yn cael dod i'r ysgol drwy wahoddiad i dderbyn cefnogaeth gan y tîm Cynnydd a Lles.
- Gwirio presenoldeb dyddiol a galwadau ffôn adref os oes pryder am bresenoldeb disgybl.
- Swyddog Teulu yn gwneud ymweliadau â chartrefi os nad oes modd cael cyswllt gydag ambell deulu.
- System i sicrhau bod gan bob plentyn yr offer i gael mynediad i'r dysgu ar-lein.
- Gwersi lles i Flynyddoedd 7 a 8 yn parhau a gweithgareddau lles i ddisgyblion eraill.

Hwb Cymru: Mae Hwb yn wefan sydd yn cynnwys adnoddau ac offer addysgiadol rhad ac am ddim i athrawon a disgyblion yng Nghymru. Mae gan eich plentyn fanylion cofrestru ar gyfer Hwb er mwyn cael mynediad i'r adnoddau. Cysylltwch â'r swyddfa os yw eich plentyn wedi anghofio'r manylion cofrestru.

Darpariaeth PYDd: Bydd pob disgybl sydd yn hawlio PYDd yn derbyn taleb uwch-farchnad drwy'r post. Bydd y talebau yn cyrraedd bob pythefnos o hyn allan ac nid yn wythnosol.

Symptomau COVID-19:

- tymheredd uchel: mae hyn yn golygu eich bod yn teimlo'n boeth i gyffwrdd ar eich brest neu eich cefn (nid oes angen i chi fesur eich tymheredd)
- peswch newydd, parhaus: mae hyn yn golygu pesychu llawer am fwy nag awr, neu dri neu fwy o byliau pesychu mewn 24 awr (os oes gennych beswch fel arfer, gall fod yn waeth nag arfer)
- colled neu newid i'ch synnwyr arogli neu flasu: mae hyn yn golygu eich bod wedi sylwi na allwch arogli na blasu unrhyw beth, neu fod pethau'n arogli neu'n blasu'n wahanol i'r arfer.

Os bydd unrhyw un yn eich teulu yn datblygu unrhyw un o'r symptomau hyn, hyd yn oed os ydynt yn ysgafn, trefnwch apwyntiad, naill ai drwy ffonio 119 neu drwy fynd i www.gov.uk/get-coronavirus-test.

Profion COVID-19:
Gofynnir yn garedig i chi gysylltu â'r ysgol os yw eich plentyn neu unrhyw aelod o'r teulu'n profi'n positif am COVID-19. Bydd angen i bob aelod o'r teulu hunanynysu am 10 diwrnod o bryd cychwynnodd y symptomau.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ

029 20 405 499

post@ysgolplasmawr.cymru

@YsgolPlasmawr

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ

029 20 405 499

post@ysgolplasmawr.cymru

@YsgolPlasmawr

Headteacher: Mr John D Hayes

Cysylltwch drwy ffonio'r swyddfa yn ystod oriau ysgol neu e-bostiwch y wybodaeth at post@ysgolplasmawr.cymru. Mae unrhyw un sy'n profi'n bositif i COVID-19 yn gorfod hunanynysu am 10 diwrnod.

Er y newyddion calonogol bod brechlyn ar y ffordd, mae'n parhau i fod yn gyfnod hynod bryderus i bawb, yn enwedig gyda'r fersiwn newydd o'r feirws sydd yn fwy trosglwyddadwy, yn enwedig ymysg pobl ifanc.

Cadwch yn ddiogel yn ystod y cyfnod anodd hwn a chofiwch gysylltu os oes angen unrhyw gefnogaeth ar eich plentyn. Mae eu lles emosiynol yn hollbwysig i ni ac rydym fel staff eisiau gwneud popeth y gallwn i sicrhau eu bod yn cael yr addysg a'r gofal gorau posib yn ystod y cyfnod yma.

John Hayes
Pennaeth

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

January 15th, 2021

Dear parent / guardian,

I hope that everybody is managing to cope with the demands of this latest lockdown period and able to remain healthy and well throughout these challenging times. I am conscious of the fact that many of our families are facing extremely difficult situations due to the virus, and I would like to offer our full support should there be anything that we could do to support you. Please contact the school if we can be of any assistance.

Our Heads of Year are on the school site on a rota basis, and you are welcome to call the school or to e-mail the relevant Head of Year if you have any concerns or would like to discuss any matters relating to your child.

Year 7:	Fflur Rowlands:	Ffr@ysgolplasmawr.cymru
Year 8:	Dion Davies:	DD@ysgolplasmawr.cymru
Year 9:	Rhian Davies:	RhD@ysgolplasmawr.cymru
Year 10:	Catrin Edwards:	CE@ysgolplasmawr.cymru
Year 11:	Fiona Harries:	FAH@ysgolplasmawr.cymru
Year 12:	Gareth Thomas:	GT@ysgolplasmawr.cymru
Year 13:	Aled James:	AJ@ysgolplasmawr.cymru
Assistant Headteacher:	Paul Harris:	PH@ysgolplasmawr.cymru
Progress Leader:	Helen Stiff:	HS@ysgolplasmawr.cymru
SENCO:	Trystan Williams:	TW@ysgolplasmawr.cymru
Learning Coach:	Rebecca Rigby:	RR@ysgolplasmawr.cymru
Family Support Officer:	Karen Salter:	KS@ysgolplasmawr.cymru

We are coming to the end of the first fortnight of distance learning and I must commend the vast majority of our pupils for their excellent attendance, engagement and enthusiasm towards this new way of learning. I would also like to thank those pupils who attend the hub or who have been invited to attend a catch-up session for their behaviour and perseverance.

I must also thank the staff who are present in school every day supervising the hub and offering administrative support for teachers and learning assistants to be able to conduct their duties.

We are constantly evaluating our distance learning provision. I am grateful to those parents who have contacted the school with feedback, and we have conducted Learner Voice sessions with our KS4 and KS5 students this week to hear about their personal experiences. We are also listening to our teachers and learning assistants about their experiences of teaching remotely.

It is clear that the adjustments made to the KS3 timetable this week have created a better balance between 'live' lessons, the supervised 'yellow' lessons and the 'free' lessons. We will continue with this structure next week, and you will be provided with the bespoke timetable for your child's class as a separate document. Please remember that the purpose of the free lessons (shown in white) in the timetable is to reduce the work burden on pupils and to

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

allow them an opportunity to complete unfinished pieces of work or to participate in wellbeing activities e.g. physical exercise, yoga, dance or mindfulness activities.

The key messages repeated throughout the Learner Voice sessions for KS4 and KS5 students included concerns about workload issues and in particular a lack of opportunity to complete tasks and assignments during the school day. In response to these concerns, we will:

- Create a timetable for **Year 10** which includes a combination of 'live lessons' and independent study lessons. The 'live' lessons will appear on your child's Teams calendar. A copy of the timetable will be sent to you as an attachment. The independent study lessons will allow students natural breaks during the day to complete assignments and tasks in order to reduce their work load. Please could you ask your child to carefully check the timetable?

- Continue to ask **Year 11** teachers to avoid teaching every lesson as a 'live' lesson but rather to balance 'live' lessons with lessons where students will be allowed to work independently and complete tasks under teacher 'supervision'. The distribution of live lessons and supervised lessons per week could change according to the demands of the scheme of work and individual teachers' planning schedules. Introducing supervised lessons where students can complete tasks during the day should allow students to be able to better manage their workload.

- Continue to expect students in **KS5** to follow their normal timetable. Teachers will be asked to regularly offer Learner Voice opportunities to discuss workload issues and to negotiate with students deadlines for assignments and formal assessments.

- Make greater use of break-out rooms during lessons in order to allow small group discussions and an easier means of communicating directly with the teacher.

- Arrange opportunities for those students who are finding things difficult for a range of different reasons to come into school to discuss issues with the relevant Head of Year.

A clear message that regularly came up in discussion with pupils, teachers and parents was that allowing pupils to turn their camera on during a lesson allows greater engagement with the teacher and is generally beneficial for all. We will:

- Expect that pupils turn their cameras on during a lesson when the teacher requests for this to happen in order for the teacher to see the pupils and to engage with them. Pupils will switch their cameras off when on task or when the teacher requests for this to happen. Teachers will understand if a pupil is accessing the lesson on a device without a camera. It is important that every pupil has a microphone facility in order to engage in group work and to engage with the teacher. If a pupil has a particular reason to keep the camera switched off, they may want to explain this reason to the teacher through a direct message.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

- Expect every pupil to be out of bed and dressed appropriately for every lesson. The first lesson begins at 08:45.

- Expect every pupil to blur their background whilst on camera. This feature is available through pressing the three dots (…) on the tool bar whilst in the Teams call / lesson.

If there is no 'live' provision for a particular lesson, it will be due to a teacher being unwell or due to unforeseen circumstances, or as a result of a teacher staffing the hub. Every effort will be made to provide work on Teams or Moodle if it is not possible to provide a 'live' lesson.

Welfare provision: In conjunction with our academic provision, we are also providing a comprehensive pastoral and wellbeing provision, which includes:

- Weekly e-mails to every year group from Personal Tutors / Heads of Year / Senior Leaders.
- Weekly assemblies or reflection sessions posted on the relevant Moodle site for every Key Stage.
- Regular Learner Voice sessions with KS4 and KS5 students.
- Targeted groups of pupils being invited to school by members of the pastoral and wellbeing teams for catch-up sessions.
- Daily attendance checks and phone calls to parents if we have a concern about pupil attendance.
- Our Family Support Officer calling at homes if we are unable to make contact with parents.
- Ensuring that no pupils are digitally deprived.
- Wellbeing lessons in Years 7 and 8 and wellbeing activities arranged for other pupils.

Hwb Cymru: Hwb is a Welsh Government funded website which has a large range of free educational resources and tools for teachers and pupils in Wales. Your child has a username and password for Hwb. Please contact the school office if your child has forgotten their log-in details.

FSM Provision: Each child eligible for FSM will receive a supermarket voucher via the post. Over the past two weeks families have received a weekly voucher, but from next week these will be fortnightly.

COVID-19 symptoms:

- a high temperature: this means you feel hot to touch on your chest or back (you do not need to measure your temperature)
- a new, continuous cough: this means coughing a lot for more than an hour, or 3 or more coughing episodes in 24 hours (if you usually have a cough, it may be worse than usual)
- a loss or change to your sense of smell or taste: this means you have noticed you cannot smell or taste anything, or things smell or taste different to normal

If your child displays any symptoms, you must arrange a test as soon as possible and self-isolate until the test result is confirmed.

COVID-19 tests:

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

I would kindly ask you to inform the school as soon as possible if your child or any member of your household receives a positive COVID-19 test result. If this occurs, all members of the household are required to self-isolate for 10 days from the onset of the symptoms. Please contact the school office during school hours, or otherwise e-mail: post@ysgolplasmawr.cymru. We will need to receive a copy of the confirmation text or e-mail regarding the positive test. Individuals who test positive to COVID-19 are required to self-isolate for 10 days.

Despite the promising news regarding the vaccines, it remains a worrying time for all, especially with the news of the new strain of the virus, which is more transmittable and especially so amongst young people. Please keep safe during these difficult times and remember to contact the school if you require any support that we may be able to offer you as a family.

Your child's emotional wellbeing is of paramount importance and we will do everything in our means to offer the best possible academic and pastoral support for your child during this lockdown period.

John Hayes
Headteacher